

# JERWOOD SURVEY III

***Jerwood Survey III* 2024-2025: cyhoeddi dyddiadau orielau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a'r artistiaid a fydd yn arddangos eu gwaith**



Ebun Sodipo, *Nasty Girl (The Sharpest Girl In Town)*, 2023 (fideo). Sut mae'r gosodiad yn ymddangos yn VO Curations, Llundain.

Arddangosfa deithiol fawr yw *Jerwood Survey* a honno'n cael ei chynnal bob dwy flynedd. Mae'n cyflwyno gwaith comisiwn newydd gan 10 o artistiaid sydd ar ddechrau'u gyrfaoedd ac sy'n dod o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ei diben yw rhoi darlun unigryw o ddi-ddordebau a dulliau gweithio presennol artistiaid ym maes y celfyddydau gweledol. Mae'n pontio ystod eang o ddisgyblaethau, ac nid oes dylanwad sefydliadau ar y broses ddethol, gan y bydd artistiaid blaenllaw yn cael eu gwahodd i enwebu'r artistiaid mwyaf rhagorol sydd ar ddechrau'u gyrfaoedd ac yn creu gwaith heddiw.

Yr artistiaid sydd wedi'u dewis ar gyfer *Jerwood Survey III* yw: **Che Applewhaite, Aqsa Arif, MV Brown, Philippa Brown, Alliyah Enyo, Sam Keelan, Paul Nataraj, Ciarán Ó Dochartaigh, Ebon Sodipo a Kandace Siobhan Walker.**

**Southwark Park Galleries** yn Llundain sy'n arwain yr arddangosfa hon, a fydd yn lansio yno rhwng 6 Ebrill a 23 Mehefin 2024, cyn teithio i **g39** yng Nghaerdydd rhwng 13 Gorffennaf a 7 Medi 2024 a **Site Gallery** yn Sheffield rhwng 27 Medi 2024 a 26 Ionawr 2025. Bydd y daith yn dod i ben yn **Collective** yng Nghaeredin rhwng 28 Chwefror a 4 Mai 2025. Dyma fydd y tro cyntaf i'r prosiect gael ei gyflwyno yn yr Alban.

**Dyma'r artistiaid sydd wedi'u dewis:**

**O Lundian y daw Che Applewhaite** ac mae'n artist, yn wneuthurwr ffilmiau ac yn awdur sy'n helpu pobl i ymwneud yn feirniadol â hanes parhaus sy'n deillio o diriogaethau, ideoleg a dogfennu. Mae ei ffilm fer gyntaf, *A New England Document*, yn ffrydio ar hyn o bryd ar y Criterion Channel. Mae ei ffilm fer ddiweddaraf, *I AM THE WORLD*, yn ddetholiad swyddogol o Wyl Ffilmiau Aesthetica 2023. Mae ei waith wedi'i arddangos yn rhyngwladol mewn gwyliau ffilm, amgueddfeydd, orielau a lleoliadau astudio. **Cafodd Applewhaite ei enwebu gan Sin Wai Kin.**

Artist amlddisgyblaethol yw **Aqsa Arif** sy'n gweithio ym maes ffilm, gosodiadau a barddoniaeth. Mae ei gwaith yn trin a thrafod tarfu ar hunaniaeth, mudo, a'r broses iacháu drwy naratifau archdeipaidd. A hithau'n ffoadur o Pakistan a symudodd i'r Alban, ac sydd **bellach yn byw yn Glasgow**, mae hi wedi profi bywyd ac iddo ddwy hunaniaeth ddiwylliannol dra gwahanol, ac mae'r pegynnu hwn yn sail i'w gwaith. Yn ddiweddar, cafodd gyfnod preswyl 15 mis yn Kelvingrove Art Gallery and Museum gyda'r UAL Decolonising Arts Institute, ynghyd ag ennill yr RSA Morton Award a Platform: 2023 Early Career Artist Award. **Cafodd Arif ei henwebu gan Alberta Whittle.**

Mae gwaith **MV Brown o Glasgow** wedi'i wreiddio mewn perfformio, ac mae'n defnyddio'r corff dynol a thechnolegau newydd i edrych ar densiynau sy'n ymwneud â goddrychedd yn y corff, y corff fel sioe i'r llygad, a chysyniadau technolegol-gymdeithasol o rywedd a rhywioldeb. Mae eu hymarfer yn datblygu ar gwestiynau ynghylch hunaniaeth a (diffyg) bywyd bob dydd mewn cyddestun ôl-ryngrwyd. Gan ddefnyddio dulliau seiberffeminyddol, glitsh-ffeminyddol a thrawsddynol, maen nhw'n trin a thrafod rhithffurfiau, prototeipiau, y 'ffug-hunan' a thwyllresymeg 'IRL' ('mewn bywyd go iawn'). **Cafodd Brown eu henwebu gan Hanna Tuulikki.**

**Mae Philippa Brown yn byw yng Nghaerdydd** ac mae hi'n artist amlddisgyblaethol sy'n edrych drwy byrth ac sy'n creu gwaith sy'n hofran rhwng goleuedigaeth, ffantasi a doethineb ffug. Mae hi'n creu ffurfiau cerfluniol, gosodiadau a phaentiadau er mwyn trin a thrafod y rhyng-gysylltiadau rhwng straeon hanes, deunyddiau, credoau a chyrrff o bob math. Cysylltiadau yw'r rhain sy'n amwys a hudolus, ac weithiau'n fregus. Mae hiraeth, is-ddiwylliannau a'r goruwchnaturiol, ac is-gerrynt chwareus yn byrth y bydd Brown yn eu defnyddio i edrych ar gydymffurfiaeth a ffyrdd gwahanol o fyw. **Cafodd Brown ei henwebu gan Davida Hewlett.**

Mae gwaith **Alliyah Enyo**, yr artist o Glasgow, yn pontio disgyblaethau ac yn ymwneud yn bennaf â phrosesau yn y corff a phrosesau myfyrio. Mae hi'n defnyddio caneuon, somateg a cherflunwaith i greu gosodiadau a pherfformiadau sy'n llawn 'myth soniarus'. Bydd seiniau wedi'u plethu yn cael eu creu ar ffurf lwpiau amlhaenog ar dâp, darnau o'i llais, recordiadau wedi'u codi o'r maes, ac atgofion. Mae'r gwaith yn creu llen ddirgel sy'n gorchuddio'r gynulleidfa ag ymdeimlad o arafwch a swrealaeth, gan ddatgelu sylfeini ei gwaith ymchwil sy'n edrych ar fythau, chwedlau gwerin neu straeon gwyddonias ynghylch safbwyntiau a hanesion ecolegol cwiar. **Cafodd Enyo ei henwebu gan Hanna Tuulikki.**

Mae **Sam Keelan, sy'n byw yn Llundain**, yn defnyddio ei waith i adrodd naratifau hoyw swreal, gan amlaf ar ffurf ffotograffiaeth, delweddau symudol a gwaith ysgrifennu. Mae'r naratifau hyn yn trin a thrafod cysylltiadau dyddiol pethau â'i gilydd – gan ddefnyddio syniadau am unigolyddiaeth, gofal a'r gymuned, a'r rheini'n deillio o ymwybyddiaeth dorfol pobl. Bydd wedyn yn gweddnewid yr elfennau cyfarwydd yn y syniadau hyn i greu drychiolaethau cwiar o ideolegau dosbarth canol amlwg, a'r rheini'n aml wedi'u hailosod mewn gofodau domestig. **Cafodd Keelan ei enwebu gan Lindsey Mendick.**

Artist sain, ymchwilydd ac addysgwr yw **Paul Nataraj** ac mae'n dod o **Blackburn, Sir Gaerhirfryn**. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio fel Ymchwilydd Cysylltiol ar brosiect sy'n edrych ar gof mudol a'r dychymyg ôl-drefedigaethol ym Mhrifysgol Loughborough. Mae ei waith ymchwil a'i waith ym maes celfyddyd sain yn trin a thrafod pobl alltud o Dde Asia, sain, y cof a materoldeb sonig. Mae ei waith wedi'i arddangos a'i chwarae yn rhyngwladol gan gynnwys yn y British Textile Biennale 2021 a'r Kochi Biennale 2022. **Cafodd Nataraj ei enwebu gan Nicola Singh.**

Artist, ymchwilydd a Gaeilgeoir o **Derry yw Ciarán Ó Dochartaigh**, sy'n byw ac yn gweithio'n achlysurol gyda salwch cronig o ganlyniad i ôl-drefedigaethu. Mae ei waith, sy'n defnyddio cyfryngau cymysg, yn edrych ar y cymhlethdodau sy'n gynhenid mewn profiadau ar ôl gwrthdaro, ac ar natur colled bersonol yng nghyd-destun trais gwleidyddol a phrofiadau bywyd. Mae ganddo waith ymchwil ar y gweill i deulu o asynnod, ar ôl gwneud gwaith gyda grŵp o falwod, er mwyn edrych ar berthnasau rhwng rhywogaethau, llafur a charennnydd. **Cafodd Ó Dochartaigh ei enwebu gan Locky Morris.**

Mae **Ebun Sodipo, sy'n byw yn Llundain**, yn creu gwaith ar gyfer pobl draws ddu'r dyfodol. Gan ddefnyddio astudiaethau ffeminyddol du i'w thywys, ynghyd â methodoleg wedi'i seilio ar

*collage* a ffabiwleiddio, mae ei gwaith yn lleoli ac yn cynhyrchu naratifau real a dychmygol ynghylch presenoldeb, ymgorfforiad a mewnnoliad yng nghyd-destun menywod traws du, a hynny yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Wrth wneud hyn, bydd Sodipo yn llenwi bylchau hanesyddol er mwyn creu momentau o bleser archifol i bobl draws ddu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn gofodau niferus: orielau, gwyliau, theatrau, cyfryngau digidol ac mewn print; ac mae'n ymddangos mewn ffurfiau amrywiol fel sain, perfformiadau, testun, gosodiadau, fideo a cherflunwaith. **Cafodd Sodipo ei henwebu gan Sin Wai Kin ac Evan Ifekoya.**

Awdur ac artist yw **Kandace Siobhan Walker** ac mae'n hanu o gefndir Jamaicaidd-Canadaidd, Saltwater

Geechee a Chymreig. Mae hi'n **byw yn Llundain**. Mae ei gwaith yn edrych ar y croestoriad rhwng hanes personol a mudiadau a systemau cymdeithasol ehangach. Mae breuddwydion, dadleoli, perthyn, gofal, y gymuned, ysbrydolrwydd a chyfiawnder yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro yn ei gwaith. Mae ei gwaith ysgrifennu wedi ymddangos yn The Poetry Review, Poetry Wales a The Guardian, ac wedi'i ddarlledu ar Channel 4 a BBC Radio 4. Hi yw awdur *Kaleido* (Bad Betty Press, 2022) a *Cowboy* (CHEERIO, 2023). **Cafodd Walker ei henwebu gan gentle/radical.**



Alliyah Enyo, *Selkie Reflections*, 2022 (gosodiad sain). Delwedd gan Miriam Craddock.

Cynllun a sefydlwyd yn 2018 yw *Jerwood Survey*, ac mae'r drydedd arddangosfa hon yn cyflwyno partneriaethau newydd ac yn parhau i ddatblygu ar wybodaeth arbenigol a phrofiad

Jerwood Arts a'r partneriaid wrth weithio gydag artistiaid sydd ar ddechrau'u gyrfaoedd ac sy'n ymdrin ag amryw o ffurfiau celfyddydol. Cafodd yr artistiaid eu dethol gan banel a gadeiriwyd gan Lilli Geissendorfer, cyn-Gyfarwyddwr, Jerwood Arts. Ar y panel hefyd roedd Charlotte Baker, Dirprwy Gyfarwyddwr, Southwark Park Galleries; Anthony Shapland, Cyfarwyddwr Creadigol, g39; Angelica Sule, cyn-Gyfarwyddwr Rhaglenni, Site Gallery; Siobhan Carroll, cyn-Bennaeth Rhaglenni, Collective; a Tako Taal, artist a fu'n rhan o *Jerwood Survey II*. Mae'r prosiect yn cael cymorth gan Harriet Cooper, Cyfarwyddwr Prosiect, Jerwood Survey III, a arweiniodd yr arddangosfeydd blaenorol yn ei hen swydd yn Jerwood Arts.

Mae *Jerwood Survey* yn ymateb i'r angen hollbwysig i sicrhau bod artistiaid sydd yn dal ar ddechrau'u gyrfaoedd yn elwa o gyfle gyda chefnogaeth i greu a dangos gwaith newydd mewn fformat arddangosfa grŵp. Fel partner arweiniol *Jerwood Survey III*, bydd Southwark Park Galleries yn helpu'r artistiaid sydd wedi'u dewis i ddatblygu'u gwaith comisiwn dros 9 mis, gan guradu'r arddangosfa gyntaf, a chreu catalog unigryw gyda chomisiynau ysgrifennu newydd.

Mae gan y pedair oriel sy'n bartneriaid gryfderau penodol wrth gefnogi a rhannu gwaith artistiaid sydd ar ddechrau'u gyrfaoedd, a byddan nhw'n cysylltu'r artistiaid sy'n rhan o *Jerwood Survey III* â chynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol ehangach drwy'r arddangosfa a'r rhaglen gyhoeddus yn eu lleoliadau nhw. Fel yn achos y fersiynau blaenorol o'r prosiect, bydd yr holl artistiaid sy'n arddangos yn cael arian i fynd i ragddangosiadau a digwyddiadau ym mhob lleoliad sy'n bartner; bydd hynny'n eu galluogi i ehangu eu rhwydweithiau drwy wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig a datblygu deialogau newydd fel grŵp o gymheiriaid.

**Meddai Aqsa Arif, un o'r artistiaid sydd wedi'u dewis:**

*"Rydw i wedi gwirioni fy mod i'n cael bod yn rhan o'r grŵp hynod o artistiaid sydd wedi'u dewis i Jerwood Survey III. Mae cael arddangos fy ngwaith ar raddfa genedlaethol mor nodedig yn gam bras ymlaen ar fy nhaith artistig, ac rydw i'n edrych ymlaen at fireinio fy ngwaith ar gyfer y pedair oriel wahanol."*

**Meddai Alliyah Enyo, un o'r artistiaid sydd wedi'u dewis:**

*"Mae hi'n ffrainc a hanner bod yn rhan o'r grŵp hwn o artistiaid, ac yn rhan o sefydliad sydd eisoes wedi dangos y fath ddiwylliedd. Mae'r comisiwn hwn yn rhoi amser i mi ganolbwyntio o ddifrif ar ddatblygu fy ngwaith ymchwil presennol, sy'n edrych ar fy stori wyddonias, 'Aphotic Archaeology'. Rydw i ar ben fy nigon fy mod i'n cael amser i dyrchu'n ddyfnach i fanylion y stori, ac i weld sut y gall y corff hwn o waith fod yn fodd o ddarganfod safbwyntiau ecolegol cwiar a hanesion archaeolegol sydd wedi mynd dros gof... Mae'n wych teimlo fy mod i wedi dechrau creu cysylltiadau newydd eisoes, a theimlo'n rhan o'r gymuned hon o artistiaid creadigol a gweithwyr celfyddydol."*

**Meddai Paul Nataraj, un o'r artistiaid sydd wedi'u dewis:**

*“Mae Jerwood Survey III yn fy rhyfeddu’n llwyr. Mae’n anrhydedd anferthol cael y fraint o fod yn rhan o’r arddangosfa hon. Mae’r orielau’n syfrdanol, ac mae gwaith yr artistiaid eraill yn aruthrol o dda, felly mae’n gyffrous tu hwnt cael gweithio gyda phobl mor anhygoel, ac rydw i’n edrych ymlaen yn arw at weld y cyfan yn dod ynghyd.”*

Bydd cyhoeddiad llawn am arddangosfa *Jerwood Survey III* ar gael ddechrau 2024.

### **Cefndir Jerwood Survey**

Southwark Park Galleries, Llundain	6 Ebrill - 23 Mehefin 2024 (rhagddangosiad 5 Ebrill)
g39, Caerdydd	13 Gorffennaf - 7 Medi 2024
Site Gallery, Sheffield	27 Medi 2024 - 26 Ionawr 2025
Collective, Caeredin	28 Chwefror - 4 Mai 2025

Southwark Park Galleries sy’n arwain *Jerwood Survey III*, a bydd yr arddangosfa’n teithio yn genedlaethol i Collective, g39 a Site Gallery. Mae Jerwood Arts yn cefnogi’r cynllun. Bydd yr arddangosfa’n cyflwyno gwaith comisiwn newydd gan 10 o artistiaid o bob rhan o’r Deyrnas Unedig, a’i diben yw rhoi darlun unigryw o ddi-ddordebau a dulliau gweithio presennol artistiaid ym maes y celfyddydau gweledol. Sefydlwyd y cynllun yn 2018, ac mae’r drydedd arddangosfa hon yn cyflwyno partneriaethau newydd ac yn datblygu ar wybodaeth arbenigol a phrofiad Jerwood Arts wrth weithio gydag artistiaid sydd ar ddechrau’u gyrfaedd ac sy’n ymdrin ag amryw o ffurfiau celfyddydol. Nid oes dylanwad sefydliadau ar y broses ddedol, gan y bydd artistiaid blaenllaw yn cael eu gwahodd i enwebu’r artistiaid mwyaf rhagorol sydd ar ddechrau’u gyrfaedd ac yn creu gwaith heddiw.

Yn arddangosfa gyntaf *Jerwood Survey*, cyflwynwyd gwaith comisiwn newydd gan Chris Alton, Simeon Barclay, Hazel Brill, Flo Brooks, Emma Cousin, Joe Fletcher Orr, Tom Goddard, Ashley Holmes, Lindsey Mendick, Nicole Morris, Milly Peck, Anna Raczynski, Will Sheridan Jr, Rae-Yen Song a Frank Wasser. Lansiodd yr arddangosfa honno yn Jerwood Space yn Llundain yn ystod Wythnos Frieze 2018 cyn teithio i g39 yng Nghaerdydd, Bluecoat yn Lerpwl, a’r BALTIC Centre for Contemporary Art yn Gateshead.

Yn *Jerwood Survey II*, dangoswyd gwaith newydd sbon gan Saelia Aparicio, Tereza Červeňová, Sadé Mica, Rebecca Moss, Cinzia Mutigli, Shenece Oretha, Katarzyna Perlak, Tako Taal, Nicolaas van de Lande ac Angharad Williams; lansiodd yr arddangosfa honno yn g39 yng Nghaerdydd yn haf 2021 cyn teithio i Jerwood Space yn Llundain a Site Gallery yn Sheffield.

### **Cefndir Southwark Park Galleries**

Sefydliad celfyddydol sy’n pontio disgyblaethau yw Southwark Park Galleries ac mae ganddo ddau leoliad tra gwahanol – sy’n cynnwys eglwys Restredig Gradd II sydd wedi’i datgysegru, oriel gelf sydd wedi’i chodi’n benodol at y diben, a gardd gymunedol yng nghanol Parc Southwark yn ne-ddwyrain Llundain. Drwy ein rhaglen o arddangosfeydd, perfformiadau a gwaith sy’n ymwneud â’r cyhoedd – rhaglen sy’n berthnasol i’r ardal leol ac o arwyddocâd

rhyngwladol – ein nod yw cysylltu pobl drwy ddefnyddio'r croestoriad rhwng y celfyddydau, byd natur a diwylliant i greu ystyr ac i hybu lles mewn gwahanol gymunedau.

Fe'n sefydlwyd yn 1984, ac mae gennyn ni enw rhagorol fel safle prawf ar gyfer gwaith arbrofol, a ninnau'n comisiynu artistiaid sydd ar gam hollbwysig yn eu gyrfaedd i greu eu gwaith mwyaf uchelgeisiol. Mae ein gwaith i ymwneud â'r cyhoedd a'r gymuned yn croesawu pawb. Mae ein lleoliad yn golygu bod modd i ni gynnig gofod diwylliannol gwyrdd ac agored i'n cymdogion yn y parc a'r tu hwnt, a hwnnw'n ofod sifig a hollbwysig.

Wrth i ni ddynesu at ddathliadau ein deugeinfed pen-blwydd yn 2024, rydyn ni'n edrych ymlaen at gryfhau ein partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan hybu ein diben ymhellach, sef rhoi lle canolog i greadigrwydd wrth greu cymdeithas fwy cynhwysol a chymdeithas sy'n dangos mwy o ddiddordeb.

Southwark Park Galleries yw enw gweithredu Bermondsey Artists' Group, elusen gofrestredig (rhif 1073851) ac mae'n un o Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol (NPO) Arts Council England.

[southwarkparkgalleries.org](https://southwarkparkgalleries.org)

@southwarkparkgalleries

### **Cefndir g39**

Oriel a chymuned greadigol i'r celfyddydau gweledol yng Nghymru yw g39, a honno yng ngofal artistiaid. Fe'i sefydlwyd yn 1998 ac mae'n bont rhwng artistiaid a chynulleidfaoedd. Anffurfiol ond proffesiynol yw'r disgrifiad gorau, ac mae perthynas g39 ag artistiaid yn ganolog i'r hyn y mae'n ei wneud. Boed yn arddangosfeydd, yn lleoliadau gwaith, yn gyfarfodydd anffurfiol, yn gyflwyno cymheiriaid i'w gilydd, neu'n wireddu'r arddangosfeydd unigol mwyaf uchelgeisiol – drwy holl rychwant ein perthnasau, ein nod yw annog a galluogi pob unigolyn sydd â'i fryd ar wneud gwaith yn y celfyddydau gweledol.

Yn 2022, daeth Cinzia Mutigli yn Gyfarwyddwr, ochr yn ochr â'r sylfaenydd Anthony Shapland sy'n rheoli'r rhaglen greadigol. Mae cefnogaeth g39 i waith artistig yn cynnwys sylwadau gan gymheiriaid, sgysiau gan artistiaid-guraduron, gweithdai, seminarau, cyfleoedd mentora, cyfleoedd datblygu proffesiynol ac ymweliadau. Mae'n rhoi rhwydwaith hollbwysig a chymdeithasol ar gyfer creu cymuned greadigol yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae g39 yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau gan artistiaid sydd ar gamau amrywiol yn eu gyrfaedd, ynghyd ag artistiaid o wahanol genedligrwydd. Mae'n aml yn cydweithio yn rhyngwladol yn ogystal â chynnal arddangosfeydd a phrosiectau sydd wedi'u curadu ar y cyd.

[g39.org](https://g39.org)

@g39cardiff

### **Cefndir Site Gallery**

Dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr, Judith Harry, mae Site Gallery, gofod celfyddyd gyfoes Sheffield, yn arbenigo mewn cyfryngau newydd, delweddau symudol a pherfformiadau.

Gan arloesi gyda gwaith a syniadau celfyddydol newydd, bydd Site yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr lleol, rhanbarthol a rhyngwladol i feithrin doniau artistig a hybu

datblygiad celfyddyd gyfoes. Mae Site yn cael nawdd gan Raglen Buddsoddi NPO Arts Council England a Chyngor Dinas Sheffield.

Bydd Site Gallery yn gweithio gydag artistiaid sydd ar ddechrau'u gyrfaedd a'r rheini sydd wedi ennill eu plwyf i gomisiynu gwaith newydd, i greu sioeau gan unigolion a grwpiau, i drefnu cyfnodau preswyl, ac i gynnal perfformiadau, digwyddiadau a rhaglenni cymunedol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi gweithio gydag artistiaid fel Elizabeth Price (y Deyrnas Unedig), Rafael Rozendaal (yr Iseldiroedd), Phoebe Davies (y Deyrnas Unedig), Sonya Dyer (y Deyrnas Unedig), Sophia Al-Maria (yr Unol Daleithiau/Qatar), Georgina Starr (y Deyrnas Unedig), a Susan Hiller (yr Unol Daleithiau). Dros y pum mlynedd ddiwethaf, bu gan Site raglen breswyl: *Platform*, gyda chymorth y Freelands Artists Programme, ac mae honno wedi buddsoddi mewn 20 o artistiaid o Ddinas-Ranbarth Sheffield. Mae'n cynnal y Society of Explorers gydol y flwyddyn, sef grŵp i bobl ifanc sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid, a hwnnw'n creu cysylltiadau unigryw ag artistiaid ac yn fodd o feithrin sgiliau a doniau newydd.

[sitegallery.org](http://sitegallery.org)

@sitegallery

### **Cefndir Collective**

Canolfan agored i gelfyddyd gyhoeddus yw Collective, a honno'n dod â safbwyntiau creadigol newydd i ddinas Caeredin.

Wedi'i lleoli mewn arsyllfa dreftadaeth, bydd Collective yn datblygu ac yn cyflwyno arddangosfeydd, digwyddiadau, gweithdai a thrafodaethau o'r radd flaenaf gan artistiaid arloesol lleol a rhyngwladol. Rydyn ni'n cynnal gweithgareddau i bobl ifanc sy'n cael eu harwain gan artistiaid, ynghyd â'r rhaglen Satellites ar gyfer egin ymarferwyr creadigol – rhaglen sydd ar flaen y gad yn y sector.

Ar ôl cael ei sefydlu yn 1984 fel cynllun yng ngofal artistiaid, mae gan Collective bellach gartref ar lethrau eiconig Bryn Calton yng Nghaeredin.

[collective-edinburgh.art](http://collective-edinburgh.art)

@collective\_edin

### **Cefndir Jerwood Arts.**

Mae Jerwood Arts wedi ymrwmo ers 1999 i helpu artistiaid, gwneuthurwyr, curaduron a chynhyrchwyr rhagorol o'r Deyrnas Unedig sydd ar ddechrau'u gyrfaedd i ddatblygu a ffynnu. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd y byddai Jerwood Arts yn uno â'r Jerwood Foundation, sydd wedi bod yn cefnogi'r celfyddydau ers 1977.

[jerwoodarts.org](http://jerwoodarts.org)

@jerwoodarts



**JERWOOD  
ARTS**



**g|39**

**SITE  
GALLERY**

**COLLECTIVE**